# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Blagur Cyf**

**Hen Ysgol**
**Rhydyclafdy**
**Pwllheli**
**LL53 7YW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

3/10/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Blagur Cyf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Meithrinfa Blagur Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 37 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae’r plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn mynegi eu hunain yn dda. Maent yn gwneud dewisiadau ynglŷn â sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad ac yn rhyngweithio’n dda gyda’i gilydd. Mae’r plant yn mwynhau’r gweithgareddau sydd ar gael iddynt.

Mae’r staff yn cadw’r plant yn ddiogel ac yn iach drwy weithredu polisïau a gweithdrefnau’r lleoliad mewn modd priodol. Mae ganddynt ffordd ofalgar amdanynt ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau a chyfleoedd addas i helpu’r plant i ddysgu a datblygu.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn saff. Caiff peryglon eu monitro a’u rheoli’n briodol. Mae’r safle yn cael ei gynnal a’i gadw’n dda ac mae’n groesawgar i’r plant.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau’n cael eu diweddaru yn ôl yr angen. Maent yn dilyn arferion recriwtio diogel er mwyn bodloni eu hunain bod y plant yn derbyn gofal gan staff addas.

## Llesiant

Mae’r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu, ac yn gwneud penderfyniadau priodol ynghylch sut maent yn treulio eu hamser. Maent yn symud yn rhydd o gwmpas y gweithgareddau sydd ar gael ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn awyddus ac yn hyderus i rannu eu syniadau, ateb cwestiynau a sgwrsio â’r staff, gan wybod y byddant yn gwerthfawrogi’r hyn sydd ganddynt i’w ddweud. Er enghraifft, maent yn hyderus i ofyn am fwy o fwyd amser cinio a sgwrsio â’r staff am eu bywydau gartref.

Mae gan y plant ymdeimlad o sicrwydd gan eu bod yn derbyn gofal gan staff y maent wedi ffurfio cydberthynas gynnes â nhw ac maent yn gyfarwydd â’r trefniadau arferol. Maent yn teimlo’n gyfforddus yn gofyn i’r staff am gysur neu sicrwydd pan fydd angen. Er enghraifft, trwy nodi eu bod am gael mwythau pan fyddant yn ansicr am bobl neu sefyllfaoedd newydd. Mae’r plant yn awyddus i gynnwys eu ffrindiau a’r staff yn eu chwarae ac i rannu eu cyflawniadau.

Mae’r plant yn gwneud ffrindiau ac yn sgwrsio gyda’i gilydd yn ystod amser chwarae ac amser cinio, gan chwerthin a gwenu wrth chwarae. Maent yn chwarae’n dda gyda’i gilydd, yn rhannu teganau, yn cymryd eu tro ac yn cydweithio i gwblhau tasgau’n dda. Er enghraifft, wrth adeiladu strwythur mawr gan ddefnyddio’r blociau mawr yn yr ardal chwarae awyr agored. Maent yn mwynhau eu chwarae ac yn canolbwyntio’n dda ar dasgau. Er enghraifft, bu iddynt ganolbwyntio’n dda wrth ddefnyddio’r offer yn yr hambwrdd tywod, gan arllwys a chodi’r tywod yn ofalus i lenwi’r bwcedi.

Mae’r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth trwy gwblhau tasgau drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae’r plant iau yn dysgu bwydo eu hunain yn ogystal â dod yn fwy annibynnol wrth sychu eu trwynau a golchi eu dwylo.

## Gofal a Datblygiad

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae’r staff yn deall ac yn dilyn gweithdrefnau’r lleoliad i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw’n ddiogel ac yn iach. Mae’r holl staff bellach wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac yn gyfarwydd â’r gweithdrefnau cywir i’w dilyn pe bai ganddynt bryder am blentyn. Mae’r staff bellach hefyd yn dilyn arferion gorau wrth newid cewynnau plant.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a’i gadw’n dda. Mae asesiadau risg wedi’u diweddaru ar waith ac mae staff yn gweithredu’r rhain yn dda, gan reoli unrhyw beryglon na ellir eu gwaredu’n briodol. Mae ffurflenni asesu risgiau newydd wedi’u creu fel y gall y bobl sy’n rhedeg y lleoliad gofnodi’n briodol unrhyw beryglon posibl newydd a nodir. Mae ymarferion tân bellach yn cael eu cynnal o leiaf unwaith bob chwe mis ac yn cael eu cofnodi’n briodol. Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad hefyd yn awyddus i sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn amlach fyth oherwydd bod oedran y plant yn iau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad wedi gwrando ar gyngor ac argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad blaenorol ac wedi ymateb yn dda iddynt. Mae hyn wedi arwain at welliannau cadarnhaol ac achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael sylw. Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod holl dystysgrifau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi’u hadnewyddu, gan gynnwys yr un ar gyfer yr unigolyn cyfrifol. Mae ffeiliau staff bellach wedi’u creu ar gyfer pob aelod o staff ac mae’r rhain yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol i ddangos tystiolaeth o addasrwydd y staff. Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad hefyd yn sicrhau bod yr unigolyn â gofal yn ychwanegol i’r cymarebau staff:plant. Mae hyn yn caniatáu iddo oruchwylio a rheoli’r feithrinfa yn effeithiol a bod cymarebau staffio yn bodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Dylid parhau i sicrhau bod yr holl ddogfennau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru yn ôl yr angen.

| Crynodeb o’r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae’n rhaid i’r darparwr gymryd camau brys i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth, rydym yn amlygu’r rhain fel Meysydd i’w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo’r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio’r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |

| | | |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 07/11/2022